

YN BRESENNOL: Matthew Vaux (Cadeirydd) Gill Hearne, Meleri Richards a Silyn Roberts

PRESENT: Matthew Vaux, (Chair) Gill Hearne, Meleri Richards and Silyn Roberts

(7.30 y.h. – 8.20pm.)

(7.30 pm. – 8.20 p.m.)

75	Ymddiheuriadau Derbynniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngh loan.	75	Apologies Apologies were received from Cllr loan as he was unable to attend.
76	Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu	76	Disclosures of Personal / Prejudicial Interests
77	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain o Ionawr 65 / 55.01 Cywiriad ymgysylltu yn lle 'ymrwymiad'	77	To confirm the minutes of the meeting held on 27th of January 65 / 55.01 Correction on in the Welsh minutes only.
66	Materion yn codi 54.01 Cau'r Ffordd Dŵr Cymru Cyngh Vaux yn cwrdd gyda Dŵr Cymru yfory er mwyn trafod / cael diweddarad ar y gwaith. Anghysondeb yn y diweddariadau sy'n cael ei rhannu. 36.01 Amserlen Bws T5 (ddylai fod yn T5 nid T1) Clerc wedi cysylltu gyda Traws Cymru yn gofyn am copiau o amserlen T5 a gofyn iddynt cadarnhau pwy sydd yn gyfrifol am rhoi'r amserlenni i fyny. Heb derbyn ymateb eto. 47.03 Parc Bro Hafan Cyngh Vaux wedi derbyn pris gan asiant eiddo lleol i werthuso'r tir er mwyn symud ymlaen gyda'r cofrestrriad gyda'r Gofrestr Tir. Cytunwyd gyda'r pris sef £120 + TAW 58.01 Eglurhad ar wariant S133 Cysylltodd y clerch â swyddog lleol Un Llais Cymru i gael cyngor a derbyniodd yr ymateb canlynol; Gellir ystyried a datrys y mater yn lleol, gellir eu diwygio cyn belled â'u bod yn cael eu gwneud fel rhan o benderfyniad ffurfiol gan y cyngor a'u	66	Matters arising 54.01 Road Closure – Welsh Water work Cllr Vaux is meeting with Dŵr Cymru tomorrow to discuss / get an update on the work. Inconsistency in the updates being shared. 36.01 T5 Bus Timetable (should be T5 not T1) Clerk contacted Traws Cymru asking for copies of the T5 timetable and asking them to confirm who is responsible for putting up the timetables. Haven't received a response yet. 47.03 Bro Hafan Play Area Cllr Vaux has received a price from a local property agent to appraise the land in order to proceed with the registration with the Land Register. Agreed with the price of £120 + VAT 58.01 Clarification on S133 expenditure The clerk contacted local officer for One Voice Wales for advise and received the following response; The matter can be considered and resolved locally, they can be amended as long as they are

cofnodi'n unol â hynny. Felly cytunwyd i ailystyried llinellau cyllideb drafft ar gyfer 2026/27, gan edrych yn benodol ar linell o'r enw 'prosiectau'. Cytunodd y Cynghorwyr y gellir ailenwi hwn ac aildefnyddio at ddiben Adran 133 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27 yn unig gan y bydd un o'r Cynghorau yn dod i rym ym mis Mai 2027.

made as part of a formal council resolution and minuted accordingly. It was therefore agreed to re-consider draft budget lines for 2026/27, specifically looking at line named 'projects.' Councillors agreed that this can be renamed and re-used for the S133 purpose for the financial year 2026/27 only as the merger of Council's will come into force in May 2027.

60.01 Draen wedi codi ar y prif ffordd ar bwys Fferm Cefngwyddill

60.01 Raised drain on the main road by Cefngwyddill Farm.

Mae'r Clerc wedi derbyn diweddariad gan Clic i ddweud bod y mater a godwyd wedi'i ymchwilio ac o ganlyniad bod yr ymholiad wedi'i gau. Mynegodd y Cynghorydd Hearne ei siom ynghylch y diffyg gwybodaeth. O ganlyniad, bydd y Cynghorydd Vaux yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am ragor o wybodaeth wrth ymateb i ymholiad Clic, yn enwedig y rhai sydd wedi'u cau heb ddiweddariad wedi'i ddarparu.

Clerk has received an update from Clic to say that the matter raised has been investigated and as a result the enquiry has been closed. Cllr Hearne expressed her disappointment at the lack of information. As a result Cllr Vaux will contact the County Council to ask for more information when replying to Clic enquiry in particular those that have been closed without an update provided.

79 **Adroddiad Cynghorydd Sir**

79 **County Councillor's Report**

Eglurodd y Cyngh Vaux bod cyfarfod llawn y Cyngor Dydd Llun nesaf – 2ail o Fawrth, yn dilyn cyfarfodydd pwyllgorau trosolwg a chraffu yn ddiweddar mae argymhelliad wedi dod i cynyddu treth y cyngor i 4.75% gyda arian yn cael ei rhoi i Pwll Nofio Llandysul (£30k) a cynyddu cyfraniad ariannol Pwll Nofio Aberaeron o £19k i £30k. Mae'r Cyngor eisioes wedi bod yn rhoi arian i Pwll Nofio Aberaeron. Mi fyddai'r arian yma yn helpu'r ddau Pwll Nofio cadw ar agor a gyda cynnal a chadw.

Cllr Vaux explained that there is a full Council meeting next Monday - 2nd of March, following the recent overview and scrutiny committee meetings, a recommendation has been made to increase council tax to 4.75% with money being given to Llandysul Swimming Pool (£30k) and increasing the financial contribution of Aberaeron Swimming Pool from £19k to £30k. The Council has already been donating money to Aberaeron Swimming Pool. This money would help keep the two Swimming Pools open and with maintenance.

80 **Cyllid**

80 **Finance**

Balans Agoriadol - £10,694.42

Opening Balance – £10,694.42

80.01 Cyflog Clerc Chwefror –£228.93
80.02 HMRC Chwefror – £57.00
80.03 Geraint Lloyd - £410.00
80.04 Baner Ddraig Goch - £5.59
80.05 Defib4Life - £69.60
80.06 Dorian Evans - £250.00

80.01 Clerk Salary February - £228.93
80.02 HMRC February- £57.00
68.03 Geraint Lloyd - £410.00
68.04 Welsh Dragon Flag - £5.59
68.05 Defib4Life - £69.60
80.06 Dorian Evans - £250.00

Balans wrth cau - £9,674.30

Closing balance - £9,674.30

81 **Ceisiadau Cynllunio**

81 **Planning Applications**

Dim ceisiadau cynllunio.

No planning applications.

82 **Ceisiadau am gymorth ariannol**

82 **Request for financial assistance**

82.01 HAVHAV

82.01 HAVHAV

Cytunwyd i nodi ar yr achlysur hwn ond bydd y cais yn cael ei ailystyried yn y flwyddyn ariannol newydd.

It was agreed to note on this occasion but the request will be re-considered in the new financial year.

83	<p>Gohebiaeth</p> <p>83.01 Diweddariad EV</p> <p>Yn dilyn ymateb a anfonwyd gan y Clerc ar ôl cyfarfod y mis diwethaf, derbyniwyd ymateb gan swyddog yn nodi bod gwrthwynebiadau'r Cyngor Cymuned i'r lleoliad wedi'u nodi yn ogystal â'r gefnogaeth i'r cynnig mewn egwyddor. Ers hynny, mae'r Cynghorydd Vaux wedi cysylltu â'r swyddog ac mae ymateb pellach wedi dod i law yn nodi y byddai'r prosiect yn dod o dan hawliau datblygu a ganiateir pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r lleoliad a nodwyd. Mae'r swyddog wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned nodi lleoliad arall y cytunodd y Cynghorwyr i gynnig y gilfan ger Cefngwyddil. Bydd y Cynghorydd Vaux yn ymateb i'r ohebiaeth ddiweddar. Mae'r Cynghorwyr wedi gofyn i'r Cynghorydd Vaux dynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor eisoes wedi dweud 'nad yw'n fwriad gan y Cyngor gyflwyno unrhyw newidiadau i orchmynion traffig sy'n cyfyngu ar ddefnyddio'r gilfan i'r math o gerbyd.'</p> <p>83.02 Cyllideb 2026/27</p> <p>Gweler 66 / 58.01 am diweddariad.</p>	83	<p>Correspondence</p> <p>83.01 EV charging – update</p> <p>Following a response sent by the Clerk after last month's meeting a response was received from an officer stating that the Community Council's objections to the location is noted as is the support for the proposal in principle. Cllr Vaux has since contacted the officer and a further response has been received noting that the project would come under permitted development rights should the Council proceed with the location identified. The officer has asked the Community Council to identify another location which Councillors agreed to propose the layby by Cefngwyddil. Cllr Vaux will be responding to the recent correspondence. Councillors have asked Cllr Vaux to highlight that the Council had already said ' that it's not the Council's intention to introduce any changes to traffic orders restricting the use of the layby to and type of vehicle.</p> <p>83.02 Budget 2026/27</p> <p>See 66 / 58.01 for update.</p>
84	<p>Materion i adrodd</p>	84	<p>Matters to report</p>
85	<p>Materion i'w adrodd ar agenda cyfarfod nesaf</p> <p>85.01 Adroddiad Blynyddol</p>	85	<p>Matters to discuss on next month's agenda</p> <p>85.01 Annual Report</p>
86	<p>Trefnaiadau Cyfarfod nesaf</p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf Dydd Mawrth y 24ain o Fawrth am 7.30pm trwy Zoom oherwydd argaeledd y Neuadd.</p>	86	<p>Arrangements for next meeting</p> <p>The next meeting will be held on Tuesday the 24th of March, 2026 via Zoom at 7.30pm due to the Hall's availability.</p>

